# Hanes Amaethu ym Mhatagonia

## Rhan 1 – Dyffryn Camwy



*Y traeth lle glaniodd y Mimosa, Gorffennaf 28, 1865. Tref Porth Madryn yn y cefndir*

Mae'n siwr y byddai'r fintai gyntaf o Gymry a laniodd ger Porth Madryn oddiar y Mimosa ar Orffennaf 28ain 1865 wedi cael tipyn o sioc wrth weld ddiffeithwch di-bendraw y paith o'u blaenau. Dyma anialdir wedi ei orchuddio â cherrig mân a llwyni fyddai'n anfwytadwy i ddefaid a gwartheg ac a edrychai'n amhosib ei amaethu. Yn fwy na hynny roedd yn aeaf, a gwyntoedd oer o'r Andes yn chwythu.

Bu raid i fwyafrif y fintai gysgodi mewn cabannau pren anorffenedig a phebyll ger y traeth cyn y byddai rhai o'r dynion wedi canfod ffordd ar draws y paith i Ddyffryn Camwy, 40 milltir i'r de, a'i gwneud yn bosib i bawb symyd yno fesul tipyn. Yno, o leiaf, roedd pridd rhywiog y gellid ei drin i dyfu cnydau, petai'n bosib ei ddyfrio.

Gofynwyd y cwestiwn sawl tro – pam cyrraedd ynghanol y gaeaf deheuol? Mae'n debyg am mai ffermwyr oedd y mwyafrif, a bod angen paratoi'r tir drwy ei glirio o lwyni a'i drin yn barod i hau yn y gwanwyn cynnar. O fethu gwneud hynny byddid yn colli blwyddyn.

Nid aeth pethau'n dda ar y cychwyn, ac wedi dwy flynedd o galedi mawr a methiant y cnydau penderfynodd y Gwladfawyr eu bod wedi cael digon. Symudodd pawb yn fintai yn eu holau i Borth Madryn i aros am long i'w cludo i wladychfa arall yn fwy i'r gogledd. Ond cyrhaeddodd Lewis Jones o Buenos Aires a'u perswadio i aros blwyddyn arall fel arbrawf. Daeth help o lywodraeth yr Ariannin a'r brodorion lleol – y Tehuelche – fu'n eu cyflenwi a chig gwanaco. Wrth lwc, cafwyd cynhaeaf llwyddiannus yn y drydedd flwyddyn, ac achubwyd y fenter.

Yng nghyffiniau Trerawson, yn agos at aber yr afon y bu i'r gwladfawyr cyntaf ymsefydlu. Ond yn raddol symudodd llawer i fyny'r dyffryn cyn belled a lle mae Trelew heddiw. Erbyn 1874 roeddent wedi ymestyn at Bentre Sydyn yn agos at ble mae'r Gaiman erbyn hyn ac yna drwy'r Lle Cul, ble

mae'r afon yn gwasgu yn erbyn y bryniau, i Ddolavon a Thir Halen. Dyma'r rhan olaf o'r dyffryn, sef y Dyffryn Uchaf, i gael ei wladychu. Byddai'r mwyafrif, o'r minteioedd nesaf ddeuai i chwilio am diroedd newydd, yn teithio cyn belled â Chwm Hyfryd wrth droed yr Andes.



*Y paith di-ddiwedd ger Porth Madryn. Hen sied gneifio yw'r adeilad*

**Dyfrio**

Y rheswm pennaf am lwyddiant cynhaeaf 1868 oedd i wraig ifanc, Rachel Jenkins, sylwi bod lefel y dŵr yn yr afon Camwy yn rhan isaf y dyffryn ychydig yn uwch na'r tir o'i chwmpas. Delid yr afon yn ei lle gan geulannau naturiol ac awgrymodd i'w gŵr y dylsai agor bwlch yn y geulan i alluogi i ddŵr orchuddio'r cae yr oeddent newydd ei hau. Llwyddiant! A buan y dilynwyd eu hesiampl gan ffermwyr eraill. Ni bu son am adael y dyffryn wedi hynny.

Y gwaith yn awr oedd agor camlesi a ffosydd i gludo dŵr i ffermydd oedd ymhellach o'r afon. Defnyddid caib a rhaw i wneud y gwaith ar y cychwyn ac yna 'marchraw'. Dyfeisiwyd hon gan y gwladfawyr i'r pwrpas, sef darn mawr o fetal tebyg i fwced JCB, yn cael ei thynnu gan ddau neu dri o geffylau.



*Defnyddio'r farchraw i agor camlas yn nyddiau cynnar y Wladfa*



*Marchraw yn Amgueddfa y Gaiman*

Roedd yn ymdrech galed, arwrol hydnoed, i agor dyfrffosydd yn y dyddiau cynnar. Meibion ffermydd a gwŷr sengl fyddai'n gwneud y gwaith a byddent yn gwersylla ymhob math o dywydd wrth symyd yn eu blaenau. Dyma ddisgrifiad o'r hyn a olygai:

'Ar fore oer o aeaf …. dwyn prysgwydd a'u gwasgaru ar y darn yr arfaethid ei gloddio, ennyn tân, ac aros i'r gwres ddadmer croen y ddaear er mwyn llwyddo i dorri'r arwynebedd haearn. Ar ddydd o haf, codi erbyn pump y bore, a llafurio nes i fraich yr haul lorio dyn ganol dydd a'i gadw yno hyd nes dôi cyfle i ail gydio yn y gwaith amser te' (Gareth Alban Davies, *Tan Tro Nesa*, 1976).

Ffurfiwyd cwmnïau i adeiladu a chynnal camlesi a daethpwyd a'r cyfan at ei gilydd i ffurfio Cwmni Dyfrhau Unedig Camwy yn 1910.

Yn Nolavon, rai milltiroedd i fyny'r dyffryn, am nad oedd yr afon yn uwch na'r tir o'i chwmpas, gosodwyd olwynion dŵr i godi bwcedi bychain i drosglwyddo dŵr o'r ffosydd i'r caeau. Ymhellach i fyny, yn ardal Tir Halen, agorwyd camlas hir o safle yn uwch i fyny'r afon i greu cwymp dŵr o 7 metr, digon i yrru twrbin sylweddol a sefydlwyd yn 1914, i bwmpio dŵr i rwydwaith o ffosydd. Galluogodd hyn ddyfrio cannoedd o hectarau o dir i gynhyrchu haidd, alfalfa a betys siwgwr i'r anifeiliaid, ac roedd digon o bŵer i weithio melin goed a gweithdy yn ogystal.



*Y twrbein gwreiddiol, neu Twrbein Crocket, yn dal i weithio hyd heddiw*

Yn uwch fyth i fyny'r afon llwyddwyd, yn 1965, i godi argae gref yn Florentino Ameghino i atal y llifogydd fyddai'n gwneud llanast ar dir a chnydau yn achlysurol; i sefydlogi'r cyflenwad dŵr dros yr haf pan fyddai ei angen, ac i gynhyrchu trydan. Bu sawl ymgais i godi argae cyn hynny ond fe'u hysgubwyd ymaith gan lifogydd bob tro.

Yr un yw'r system ddyfrio yn Nyffryn Camwy hyd heddiw, gyda mân newidiadau. Cyflawnwyd arolwg gan Lywodraeth Ariannin beth amser yn ôl i effeithiolrwydd y camlesi a'r ffosydd, a deuwyd i'r canlyniad na ellid gwell – sy'n deyrnged i alluoedd a gwaith yr arloeswyr o Gymry. A cofiwch, doedd gan neb ohonynt brofiad o'r math hwn o waith cyn cyrraedd y Wladfa.

**Camau breision yn Nyffryn Camwy**
Yn raddol, wrth i'r Cymry feistroli'r dechneg o ddyfrio a dod i ddeall y tir a'r tymhorau, ehangwyd y tir dan amaeth a daeth safon gwenith Dyffryn Camwy i gael ei gydnabod yn rhyngwladol. Bu i un gŵr, Benjamin Brunt, oedd yn enedigol o Drefeglwys, Maldwyn, ac yn ffermwr blaengar a llwyddiannus yng Nghymru, ond heb obaith o ddod yn berchen ar ei fferm ei hun, droi a dyfrio 'diffeithwch enbyd' yn ardal Dolavon ac ennill medalau aur am wenith o'r safon uchaf yn Arddangosfeydd Rhyngwladol Paris yn 1880 a Chicago yn 1893. Roedd ei haidd yn gymeradwy ym Maris yn 1889 yn ogystal. Mae disgynyddion Benjamin Brunt yn dal yn y dyffryn a phleser oedd cael ymweld â fferm Aldwyn Brunt a'i frawd yn ardal Glan Alaw i gael peth o'r hanes.



*Y dull gwreiddiol o ddyfrio yn dal ar waith yn ardal y Gaiman*

Buan y manteisiodd ffermwyr eraill y dyffryn ar enw da eu gwenith a haidd ac allforiwyd llawer o'r grawn i Lerpwl. Mantais i ŷd Dyffryn Camwy oedd ei fod allan o dymor gwenith gogledd America ac felly'n cael prisiau da. Llewyrchodd y Wladfa ac yn yr 1880au-1890au croesawyd sawl ton o ymfudwyr eraill o Gymru yn ogystal â gweddill yr Ariannin a rhannau eraill o'r byd.

Cam mawr ymlaen oedd agor rheilffordd o Borth Madryn i Drelew yn 1889, gyda estyniad i fyny'r Dyffryn i'r Gaiman yn 1908, Dolavon yn 1915 a chyn belled a Dol y Plu allan ar y paith erbyn 1920. Roedd hyn o fantais fawr i gludo cynnyrch amaethyddol allan a nwyddau ag offer amaethyddol o bob math i mewn. Gwnaed sylw gan wladfawr a ymwelodd â Chymru yng nghyfnod dirwasgiad y 1920au-1930au fod y peiriannau amaethyddol gartref yn llawer gwell a diweddarach na'r hyn welodd yng Nghymru.

Byddai'r gwladfawyr cynnar, o reidrwydd, yn ceisio bod mor hunnan-gynhaliol a phosib, yn magu gwartheg, defaid, ieir, moch a thyfu tatws, llysiau o bob math, a chynnyrch gardd, yn enwedig eirin a chwrens duon a chochion i wneud jam a chacennau. Mae'r 'deisen ddu', sydd yn fersiwn o'n bara

brith ni, ac y datblygwyd sawl amrywiad teuluol ohonni yn enwog. Mae'n werth galw heibio'r tai te Cymreig *(Casa de te)* welwch yn gyffredin yma i'w blasu.

**Yr CMC**

Yn 1885, oherwydd i rai o'r Gwladfawyr brofi anhawster i gael telerau teg am nwyddau gan fasnachwyr Sbaenaidd Trerawson, penderfynwyd sefydlu cwmni cydweithredol, Cwmni Masnachol Camwy, i brynnu nwyddau ar eu rhan yn Buenos Aires a llogi llong i'w cludo i Borth Madryn. Mewnforiodd yr CMC bob mathau o nwyddau, o beiriannau a nwyddau amaethyddol i declynnau ar gyfer y tŷ, dillad, a hydynoed y ceir cyntaf i'r Wladfa, gan ddefnyddio'r rheilffordd pan ymestynodd honno i fyny'r dyffryn. Ceir Ford oedd y pennaf ddewis am fod eu cyrff yn uwch oddiar y llawr, ac felly yn fwy addas i ffyrdd di-darmac y dyffryn. Rhain yw'r ffyrdd llwch sy'n dal yn gyffredin iawn hyd heddiw drwy'r ardal.



*Hen adeilad yr CMC fel y mae heddiw yn Nolavon*

Bu i'r CMC agor masnachdai yng Nghwm Hyfryd yn ogystal, a chymeryd y gwlân a groesai'r paith oddiyno mewn confoi o wagenni hyd yr orsaf reilffordd yn Nol y Plu. Roedd yn fusnes mawr, ond, gwaetha'r modd, dirywio fu ei hanes yn y dirwasgiad rhwng y ddwy Ryfel Byd a daeth i ben ddiwedd y 1930au. Fe'i olynwyd gan gwmni La Anónima, a ddatblygodd yr archfarchnadoedd a welir heddiw ar draws Talaith Chubut.

**Trychinebau**

Aeth pethau'n dda ar y cyfan, er y digwyddai trychinebau o bryd i'w gilydd. Yn 1899 bu gorlif enfawr yn yr afon a grëodd lanast enbyd ar y tai a'r tir ar lawr y Dyffryn. Chwalwyd sawl ffermdy a Chapel ac ysgubwyd hydnoed mynwent i ffwrdd gan yr afon. Cafwyd gorlifoedd eraill dros y blynyddoedd, ond ddim cyn waethed a gorlif 1899. O ganlyniad, o hynny allan, bu i bentref y Gaiman ddatblygu ar y llethrau cyfagos, allan o gyrraedd rhyferthwy achlysurol yr afon Camwy. Ar lawr y dyffryn codwyd llwyfannau o bridd a cherrig yn seiliau i'r amryw o adeiladu fu raid eu hailadeiladu, fel eu bod o gyrraedd unrhyw lifeiriant arall. Fe welwn y llwyfannau hyn o dan sawl ffermdy a Chapel yn y Dyffryn Isaf hyd heddiw.

Bu i gorwynt yn 1909 ddinistrio Eglwys Llanddewi yn ardal Dolavon. Ailgodwyd yr adeilad, yr unig sefydliad crefyddol yn y Dyffryn sydd â thŵr arno, a chlywir cloch hynafol, rhodd o Eglwys Llanllyfni yn Arfon, yn perseinio oddiyno pan gynhelir gwasanaethau.

Mae gwyntoedd cryfion yn chwythu i lawr y dyffryn o'r paith ar adegau. Dyma sy'n cyfrif am y rhesi o goed poplys tal welir ar hyd yr afon ac o gwmpas y caeau. Fe'u planwyd yn gynnar yn hanes y Wladfa ac maent yn effeithiol iawn i roi cysgod rhag y gwynt a lleihau brath yr oerfel yn yr hydref a'r gaeaf.



*Cae o alfalfa ger y Gaiman, gyda choed poplys yn rhoi cysgod gwynt*

Digwyddodd trychineb fawr ym mis Mai 1921 pan chwalodd Pont yr Hendre oedd yn cysylltu rhan ddeheuol y dyffryn a'r rheilffordd yn Nhrelew. Pont bren, ac wrth ei chroesi chwalodd ei llawr wrth i Stephen James ei chroesi gyda wagenaid o hadau. Collodd Stephen ei fywyd, boddwyd y pedwar ceffyl, a malwyd y wagen yn dipiau.

**Newidiadau**

Erbyn diwedd y 19eg ganrif roedd melinau blawd wedi eu sefydlu yn Nhrelew, y Gaiman, Bryn Gwyn, Dolavon, a hefyd yng Nghwm Hyfryd yn yr Andes. Roeddent yn cael eu gweithio gan olwynion dŵr i fanteisio ar y gwenith ardderchog oedd â'i safon, yn ôl adroddiad Prydeinig yn 1902, cystal â Manitoba. Byddai y rhain yn cyflenwi anghenion y Wladfa i gyd i borthi ceffylau, mylod, gwartheg ac, wrth gwrs, y boblogaeth gynyddol drigai ar ffermydd, trefi a phentrefi Dyffryn Chubut a Chwm Hyfryd. Bu'r melinnau ar waith hyd ddiwedd y 1940au pan benderfynodd Llywodraeth yr Ariannin ar bolisi o gynyddu tyfu gwenith a chynnig cymorthdal i ffermwyr i'r gogledd o'r Afon Colorado i wneud hynny. Ni chafodd ffermwyr y Wladfa yr un cymorth, a buan y daeth tyfu gwenith i ben yn Nyffryn Camwy a Chwm Hyfryd. Erbyn canol y 1950au roedd y melinnau blawd oll ar gau.



*Injan oel i droi dyrnwr yn ardal Trelew, tua 1920*



*Torri ŷd yn y dyffryn, tua 1945*

Ond erbyn hynny roedd tyfu cnydau eraill, magu anifeiliaid a chynhyrchu gwlân eisoes wedi dod yn bwysig. Er engraifft, dechreuwyd tyfu alfalfa yn borthiant i anifeiliaid yn y dyffryn cyn gynhared ag 1894. Cynyddodd ei ddefnydd yn sylweddol yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf ac erbyn 1936 amcanwyd bod 70% o gynnyrch y Wladfa yn alfalfa. Daeth yn arfer a welir hyd heddiw i'w yrru i ardaloedd eraill, yn enwedig i dde oerach y wlad lle na ellir ei dyfu, yn borthiant gaeaf gwerthfawr i ddefaid a gwartheg.



*Rhan o hen felin flawd, Anglo-American Mill Co., yn Nolavon*

Mentrau eraill y bu bri arnynt am gyfnod oedd y ffactrioedd caws a gododd mewn sawl ardal, ond daeth y rhain i ben yn raddol wrth i'r rhwydwaith ffyrdd o'r gogledd wella ac i fwy o ddewis o gawsiau rhad gyrraedd. Arferai rhai ffermydd gynnal rownd laeth yn y pentrefi a gwneud menyn, ond prin iawn yw'r gwartheg godro yn y Dyffryn erbyn hyn, er y'u ceir o hyd yng Nghwm Hyfryd yn yr Andes.

Erbyn heddiw daeth tyfu ffrwythau a llysiau yn ôl i fri yn y dyffryn, yn arbennig dan ddylanwad ffermwyr a symudodd i'r ardal o Bolivia. Maent yn cael cryn lwyddiant yn tyfu amrywiaeth o lysiau a ffrwythau i'r farchnad leol yn y trefi cyfagos oherwydd costau uchel mewnforio bwydydd a nwyddau gannoedd o filltiroedd o'r gogledd. Sylwais bod cynnyrch y dyffryn; cig, llysiau a ffrwythau yn rhad, a bod unrhyw fwydydd neu nwyddau eraill a fewnforir o bellteroedd maith yn ddrud. Am y rheswm hwn mae bron pawb yn gwneud eu jam, picls a chatwad *(chutney)* eu hunnain, a'u safon yn fendigedig.

Tyfir coed ffrwythau o bob math, yn cynnwys ceirios, sydd bellach yn ail i alfalfa o ran y cynnyrch a allforir o'r dyffryn. Mae ffatri sylweddol yn y Gaiman i bacio ceirios au hoeri ar gyfer teithio i farchnadoedd ym Mhrydain a gweddill y byd.

Ceir sawl math o'r poncin (pwmpen), a hefyd y 'citron', sy'n gwneud jam hyfryd. Dyma gynnyrch sy'n anghyfarwydd i ni yng Nghymru fel bwydydd. Felly, ar y 1af o Dachwedd, yn hytrach na thaflu'r bwmpen Glangaeaf, torrwch hi yn sgwariau mân a'i rhoi yn y lobscows.

**Defaid**

Yn fuan yn hanes y Wladfa, daeth defaid Merino o ogledd yr Ariannin i'r dyffryn. Defaid celyd oedd yn medru llwyddo ar y tiroedd llai cynhyrchiol ac anoddach eu dyfrio. Yn rhai ardaloedd sefydlwyd *estancias* neu ffermydd defaid enfawr ar y paith lle gallai'r defaid borri'r sypiau gwasgaredig o weiriau sydd â'u dail fel gwifrau main caled, ac yn addas i gynnal dafad i bob ryw 2 hectar. Ar y paith

rhwng y Dyffryn a'r Cwm, lle sefydlodd rhai teuluoedd Cymraeg *estancias*, rhaid cael 4 hectar y ddafad. Arfer y defaid yw crwydro eu cynefin yn grwpiau sy'n amrywio o ddwsin i gant.



*Defaid Merino yn crwydro i chwilio am y borfa brin rhwng llwyni'r paith*

Dros y blynyddoedd datblygwyd y brïd a mewnforiwyd Merinos o Awstralia i'w gwella. Roedd eu gwlân gwerthfawr yn rhan bwysig o economi'r Wladfa tan y 1960au, pryd, fel yng Nghymru, bu i brisiau gwlân gwympo yn aruthrol yng ngwyneb cystadleuaeth oddiwrth ffeibrau artiffisial. Roedd 50 miliwn o ddefaid yn yr Ariannin yn 1960, ond maent i lawr i 8 miliwn erbyn hyn. O ganlyniad, o tua 1990 ymlaen, bu i lawer o *estancias* ar y paith roi'r gorau iddi ac i'r tir fynd yn ôl yn wyllt. Serch hynny, mae magu defaid ar gyfer eu cig yn dal yn bwysig; tan yn ddiweddar Tsieina oedd y prif gwsmer am y gwlan, ond erbyn hyn yr Almaen sydd flaenaf. Er engraifft, rhwng Gorffennaf 2021 ac Ebrill 2022, allforiwyd y rhan fwyaf i'r Almaen (4,900 tunell), yna Tsieina (2,700t), yr Eidal (1,900t), Twrci (1,100t) a Mecsico (900t), ac ar raddfa lai i amryw o wledydd eraill lle mae'r llafur i'w brosesu a'i wehyddu yn rhad.

Brïd arall a welir mewn rhai ardaloedd yw y Corriedale a ddatblygwyd o groesiad Lincoln Longwool x Merino yn Seland Newydd ac Awstralia ddechrau'r 20fed ganrif. Maent yn ddefaid dau-bwrpas, sef gwlân sydd a ffeibrau ychydig yn dewach na'r Merino ac yn addas ar gyfer blancedi a charpedi, a chig sydd o safon dda.

Ddiwedd yr haf bydd ffermydd y paith yn cael gwared o'r defaid hŷn, 4-5 oed, a'r rhai gweigion a'u gwerthu i'r dyffryn lle'u cedwir ar y sofl wedi'r cynhaeaf gwair. Byddant yn wyna yn y gwanwyn (mis Medi) a'u gwerthu fel *mutton*. Cedwir y defaid eraill ar y paith dros y gaeaf i wyna yn y gwanwyn a'r haf.

Yn raddol, ers y 1970au, aeth ffermydd y dyffryn yn fwy i gyfeiriad magu anifeiliaid wrth i boblogaeth trefi megis y Gaiman, Trelew, Trerawson a Phorth Madryn gynnyddu, gan fwy neu lai ddyblu eu maint dros y 25 mlynedd diwethaf. Daw llawer o wartheg o'r Andes, ac o dalaith Santa Cruz yn y de lle mae'r gaeafau'n oerach ac yn para yn hirach. Cefais air âg Eddie Griffiths, Llain Las, rhwng y Gaiman a Bryn Gwyn, sy'n prynnu lloi yn yr Andes ym Mai (dechrau'r gaeaf ym Mhatagonia) i'w porthi ar wair ac alfalfa dyfir ar y fferm a'u gwerthu yn yr haf (oddeutu Rhagfyr).

Ymwelais hefyd â fferm Ricardo Irianni James, fu yng Ngholeg Amaethyddol Aberystwyth, Llanbadarn Fawr yn y 1990au. Fferm 100 ha, un o'r ychydig yn yr ardal sydd wedi cadw ei maint a'i ffiniau gwreiddiol. Mae Ricardo a'i bardner busnes yn cadw tua 800 o loeau, Hereford yn bennaf, ac Angus. Prynnu ryw 700 ym Mai, yn 8 mis oed o'r Andes ac o Rhyd yr Indiaid ar y paith pan fyddent tua 200 Kg a'u cadw tan fyddent tua 380 Kg. Hynny yw, ddim yn rhy fawr am y bydd y prisiau yn dechrau dod i lawr dros 400 Kg. Byddant yn cael eu porthi allan mewn corlannau dros y gaeaf deheuol – 'does dim tyfiant yn y borfa rhwng Mai a Medi – ar gymysgedd o alfalfa, india corn a gwellt gwenith. Daw'r gwellt o dalaith Buenos Aires. Mae'r porthiant, ynghyd â phob rhan o'r broses yn hollol organic.



*Y peiriant cymysgu bwyd i'r lloeau*

Bydd hefyd yn prynnu lloi 6 mis oes o dalaith Santa Cruz yn y de, lle mae'r tywydd yn rhy oer iddynt dros y gaeaf. Caiff y rhain eu porthi ar gymysgedd o alfalfa, india corn, a gwair (fesciw, rhygwellt a meillion gwyn), gan ychwanegu dŵr i'r gymysgedd i'w wneud yn haws i'w fwyta ac ychydig bach o urea, 5Kg i bob 500kg o fwyd, i'w wneud yn fwy treuliadwy.



*Yn bwyta'n awchus yn y corlannau*

Bydd yr anifeiliaid yn cael eu troi allan i'r caeau pan fydd y borfa wedi dechrau tyfu eto, a dŵr yn ôl yn y ffosydd (nid oes cyflenwad dŵr rhwng dechrau Mai a diwedd Awst). Bydd y fferm wedi ei rhannu efo ffensus trydan yn lleiniau o dir, tua 2 ha., ac yn cael eu dyfrio, bob un yn eu tro. Y drefn yw rhoi 500 o anifeiliaid ar un o'r lleiniau a'u cadw yno am rhwng 1 a 5 diwrnod i'w borri'n llwyr cyn symud i'r llain nesa. Erbyn iddynt fynd rownd y lleiniau bydd y borfa wedi aildyfu a chael budd o wrtaith y nifer fawr o anifeiliaid gadwyd yno gyda'i gilydd rai misoedd ynghynt. Pan yn barod byddant yn mynd i ladd-dai lleol i gyflenwi anghenion cig trefi poblog yr ardal.

Tua 10 mlynedd yn ôl dechreuodd rhai ffermwyr arbrofi gyda *ffeed-lots* i wartheg, lle'u cedwid mewn corlannau a'u pesgi ar alfalfa wedi ei gyfoethogi â soya. Ond lleihaodd yr arfer hwnnw erbyn hyn am fod y soya yn gostus i'w fewnforio o'r gogledd ac, ym marn rhai, yn gadael blas sydd ddim cystal o ran y safon uchel a ddisgwylir gan yr Archentwyr. Y ffordd ymlaen yw bod mor hunnan gynhaliol a phosib drwy dyfu cymaint ag y gellir ar y fferm.

Twm Elias